**Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru - Cofnodion**
**Dydd Iau, 6 Gorffennaf 2023 10:00-11:30 MS Teams**
**Yn bresennol**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cyng. Anthony Hunt, Torfaen
Y Cyng. Jane Mudd, Casnewydd
Y Cyng. Ian Roberts Sir y Fflint
Y Cyng. Paul Griffiths, Sir Fynwy
Y Cyng. Rachel Garrick, Sir Fynwy
Y Cyng. Dyfrig Siencyn, Gwynedd
Y Cyng. Mark Pritchard, Wrecsam
Y Cyng. Llinos Medi, Ynys Môn

**Swyddog Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid) Ysgrifennydd
Nathan Gardner – Rheolwr Swyddfa, CLlLC
Leah Whitty – Tîm Refeniw a Budd-daliadau, CLlLC

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Matthew Wellington – Trysorlys Cymru, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth

**Swyddogion Llywodraeth Cymru - sylwedyddion**

Emma Watkins – y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth
Emma Smith – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Andrea Melvin – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
James Koe – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Paula James – Polisi Llywodraeth Leol
Lisa Hughes – Polisi Llywodraeth Leol
Hannah Chivers – Trysorlys Cymru
David Greenhough – Polisi Ardoll Ymwelwyr
India Kitchen – Polisi Ardoll Ymwelwyr

**Ymddiheuriadau**

Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Andrew Morgan, Arweinydd, (a Seilwaith a Buddsoddiad) Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT
Rob Stewart, Arweinydd, (a'r Economi, Cyllid a Strategaeth) Cyngor Sir Abertawe

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Agorodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) y cyfarfod, gan ddiolch i'r aelodau am fod yn bresennol. Roedd y Gweinidog yn disgwyl i'r cyfarfod ganolbwyntio ar ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed i leihau'r baich gweinyddol sydd ar awdurdodau lleol, trafodaethau ar y pwysau ar awdurdodau lleol a'r heddlu, ac adolygiad o ddadansoddiad data'r is-grŵp dosbarthu ar gyfer setliadau yn y dyfodol.

**Eitem 2: Cofnodion a Materion sy'n codi o'r Cyfarfod Blaenorol**

2. Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu dosbarthu a'u cytuno.

3. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na phwyntiau o ran cywirdeb.

**Eitem 3: Diweddariad gan y Gweinidog**

4. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad cryno ar y gwaith o ddiwygio trethi lleol. Cadarnhaodd y Gweinidog ei hymrwymiad i sicrhau bod system treth gyngor decach ar waith yn 2025, gan obeithio pennu system newydd o fandiau a chyfraddau treth yn nes ymlaen eleni. Hefyd, cadarnhaodd ei bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i osod diweddariadau ailbrisio rheolaidd ar sail statudol.

5. Cadarnhaodd y Gweinidog fod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r trefniadau ar gyfer gostyngiadau, eithriadau, a phremiynau, gan adrodd ar hynt y gwaith hwn yn nes ymlaen eleni. Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod arbenigedd llywodraeth leol yn rhan hynod werthfawr o'r sgyrsiau hyn.

6. O ran diwygio ardrethi annomestig, cyfeiriodd y Gweinidog at yr ymarfer ailbrisio a ddarparwyd ym mis Ebrill, ochr yn ochr â phroses apelio well. Hefyd, dywedodd y cafodd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwygio ardrethi annomestig yn ehangach ei gyhoeddi ym mis Chwefror.

7. Diolchodd y Gweinidog i arweinwyr a'u swyddogion am eu cyfraniadau at y gwaith o ddiwygio trethi lleol.

8. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad i'r grŵp ar sefyllfa'r gyllideb yn y dyfodol, gan gadarnhau bod y rhagolygon cyllidol yn llwm, gyda chwyddiant yn gwasgu ar gyllid cyhoeddus ym mhob man. Roedd yn cydnabod bod y grŵp wedi cydweithio

mewn modd ymarferol a chydweithredol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu gyda’r cyllid sydd ar gael.

9. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y rhagolygon yn awgrymu y byddai cyllideb yr hydref y DU yn hwyr, a byddai hynny’n golygu y byddai cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cael ei gosod ddechrau mis Rhagfyr a setliad drafft yn fuan wedyn. Roedd yn cydnabod nad oedd yr amserlen hon yn ddelfrydol ar gyfer pennu cyllidebau awdurdodau lleol, ond dywedodd y bydd ymgysylltu agos yn digwydd yn y misoedd cyn y gyllideb.

10. O ran ymateb i’r argyfwng costau byw a threchu tlodi, roedd y Gweinidog yn cydnabod bod y prif ysgogiadau polisi yn gorwedd gyda Llywodraeth y DU. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n croesawu cymorth parhaus y grŵp o ran cefnogi’r galwadau ar Lywodraeth y DU.

11. Dywedodd y Gweinidog fod y gwaith o gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer ardoll ymwelwyr dewisol yng Nghymru yn dal i fynd rhagddo, ac roedd am ddiolch i’r grŵp a’r swyddogion am eu gwaith yn y maes hwn.

12. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd awdurdodau lleol yn gallu dewis cyflwyno ardoll yn ôl eu dymuniad os caiff ei phasio, ar ôl ymgynghori â’u cymunedau a busnesau lleol. Er mwyn cydgysylltu ymdrechion ar draws Cymru a sicrhau bod y broses o gasglu refeniw mor effeithlon â phosibl, byddai Awdurdod Cyllid Cymru mewn sefyllfa dda i gasglu  a gweinyddu’r ardoll ar ran awdurdodau lleol.

13. Dywedodd y Gweinidog fod swyddogion wrthi’n cynnal gweithdai ar yr ardoll ymwelwyr gyda phob ardal ranbarthol, er mwyn adolygu’r model llywodraethu a gweithredu yn yr ysbryd parhaus cydweithio a chreu polisi ar y cyd ag awdurdodau lleol.

14. Dywedodd y Gweinidog y bydd yn rhoi diweddariadau pellach i’r grŵp wrth i’r gwaith fynd rhagddo.

15. Mynegodd y Cyng. Anthony Hunt ei ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru am eu dull gweithredu a chyd-gynhyrchu cydgysylltiedig, gan gadarnhau mai dyma fydd y dull gweithredu a ddefnyddir i ymdrin â’r materion cyllidebol presennol.

16. Dywedodd y Cyng. Llinos Medi y dylai’r aelodau i gyd sefyll gyda’i gilydd i roi pwysau ar Lywodraeth y DU yng ngoleuni’r argyfwng costau byw, a gwella gwybodaeth y cyhoedd am effeithiau’r argyfwng ariannol ar y gallu i ddarparu gwasanaethau.

17. Cytunodd y Gweinidog nad oedd llawer o randdeiliaid yn deall y sefyllfa ariannol bresennol, a’i bod yn hynod bwysig gwneud popeth o fewn ein gallu i egluro’r broblem yn well. Roedd yn gofyn i swyddogion CLlLC a LlC gydweithio i nodi’r pethau allweddol yr ydym am i Lywodraeth y DU ymateb iddynt.

**Cam gweithredu – Swyddogion CLILC a LIC i gydweithio i nodi meysydd allweddol y mae angen i Lywodraeth y DU weithredu arnynt, gyda'r bwriad o gyhoeddi llythyr ar y cyd.**

**Eitem 4: Diweddariad ar hynt y gwaith o leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol**

18. Eglurodd y Gweinidog fod Gweinidogion wedi ymrwymo i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, fel rhan o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth ailadrodd ei diolch i'r cydweithwyr mewn llywodraeth leol a oedd wedi cydweithio â swyddogion i nodi cyfleoedd ar gyfer newid.

19. Gofynnodd y Gweinidog i Judith Cole gyflwyno papur yn amlinellu'r broses a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn.

20. Gofynnodd Judith i'r aelodau nodi bod y gwaith yn dal i fynd rhagddo. Cadarnhaodd y bydd Cyngor Partneriaeth Cymru, ac yn benodol y grŵp hwn, yn cyflawni rôl allweddol o ran goruchwylio'r broses a galluogi trafodaethau amserol a fydd yn sicrhau bod cynnydd yn digwydd. Gofynnwyd i'r grŵp gytuno i gynnal cyfarfod ychwanegol o'r is-grŵp cyllid ym mis Hydref er mwyn sicrhau bod digon o amser i drafod y cynigion.

21. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd asesiadau effaith yn allweddol ar gyfer y broses hon, gan ein bod yn awyddus i osgoi unrhyw newidiadau a fyddai'n achosi niwed.

22. Gofynnodd y Cyng. Anthony Hunt a oedd gan y prosiect amcanion mesuradwy megis cyfradd y grantiau a fyddai'n cael eu symud i'r Grant Cymorth Refeniw. Hefyd cadarnhaodd ei fod yn croesawu'r cyfle i gydweithio'n agos ar y gwaith hwn.

23. Cadarnhaodd y Gweinidog mai'r bwriad oedd symud grantiau i mewn i'r Grant Cymorth Refeniw oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny, er nad oedd unrhyw darged penodol. Diolchodd i'r Cyng. Anthony Hunt am gynnig gweithio gyda swyddogion yn y maes hwn.

**Eitem 5: Diweddariad ar y pwysau ar Awdurdodau Lleol**

24. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi gallu ymweld â nifer o awdurdodau yn ystod yr wythnosau diwethaf, a chlywed am bwysau cyllido penodol yn ogystal â gweld rhai o'r buddsoddiadau a phrosiectau rhagorol sy'n digwydd yn eu hardaloedd lleol.

25. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn awyddus i glywed syniadau ynghylch pwysau cyffredin, a chafodd Anthony Hunt ei wahodd i gyflwyno diweddariad llafar ar ran CLILC.

26. Cadarnhaodd y Cyng. Anthony Hunt fod y sefyllfa gyffredinol i awdurdodau lleol yn llwm, ac y disgwylir pwysau cyffredinol rhwng £600m a £750m yn y flwyddyn ariannol hon. Dywedodd fod awdurdodau lleol wedi tynnu £193m i lawr o

gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac nad oedd hynny'n gynaliadwy. Dywedodd hefyd fod CLlLC yn aros am ymatebion gan awdurdodau lleol o ran arolwg cyllidebol, ac y byddai'n bosibl darparu mwy o wybodaeth ar gyfer cyfarfod nesaf yr Is-grŵp Cyllid (ond hefyd y byddai'n rhoi diweddariadau i swyddogion wrth i fwy o wybodaeth ddod i law yn ystod cyfnod yr haf).

27. Pwysleisiodd y Cyng. Mark Pritchard a'r Cyng. Paul Griffiths y pwysau sy'n effeithio ar ofal cymdeithasol, ac y gallai hynny achosi oedi a phwysau yn y GIG. Adleisiwyd hyn ym mhryderon Cynghorwyr eraill, a ddywedodd y byddai'r pwysau cyllidebol presennol yn arwain at ostyngiad mewn gwasanaethau statudol a diswyddiadau o ganlyniad i hynny. Cafodd materion a oedd yn ymwneud â'r pwysau sy'n codi o ganlyniad i ddigartrefedd a chyflogau hefyd eu codi gan aelodau.

28. Nododd y Cyng. Llinos Medi fod llywodraeth leol eisoes wedi gweithio'n galed i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian, a chafodd hynny ei gydnabod gan y Gweinidog.

29. Cododd Cynghorwyr y mater fod canfyddiad ymhlith Aelodau o'r Senedd bod cronfeydd wrth gefn yn uchel, a bod canfyddiad o'r fath yn gamarweiniol. Dim ond unwaith y gellid defnyddio cyllid cronfeydd wrth gefn, er y gallai gwneud hynny ddarparu mwy o hyblygrwydd ac amser i gyflwyno newidiadau a gwneud penderfyniadau.

30. Diolchodd y Gweinidog i'r grŵp am y drafodaeth ddefnyddiol ar y pwysau, gan nodi bod angen gwneud gwaith nawr dros yr haf i fireinio'r wybodaeth am effeithiau'r pwysau (drwy'r arolwg o gyllidebau llywodraeth leol a gynhelir gyda thrysoryddion). Gellid defnyddio'r wybodaeth hon i roi pwysau ar Lywodraeth y DU, ac egluro'r effeithiau i'r cyhoedd. Cadarnhaodd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd adolygu ei chyllidebau, a gofynnodd am wybodaeth gan lywodraeth leol o ran y penderfyniadau a'r dewisiadau yr oedd y cynghorau'n gorfod eu hystyried.

**Cam gweithredu: CLlLC i ddarparu papur cyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp Cyllid**

**Eitem 6: Diweddariad am ddata ar gyfer setliadau yn y dyfodol**

31. Gofynnodd y Gweinidog i Judith Cole gyflwyno papur yn amlinellu'r data a fyddai'n sail i fformiwla setliadau yn y dyfodol.

32. Cadarnhaodd Judith mai diben y papur oedd sicrhau bod y grŵp yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith swyddogion, ac mai un o'r meysydd allweddol oedd ystyried y data poblogaeth a fyddai'n cael eu defnyddio wrth gyfrifo'r setliad nesaf. Cadarnhaodd hefyd fod swyddogion wedi dechrau edrych ar opsiynau

data poblogaeth, ond gan nad yw'r holl ddata ar gael eto bydd angen i swyddogion ddychwelyd atynt a gwneud argymhellion i'r Is-grŵp Cyllid yng nghyfarfod yr hydref. Cadarnhaodd Judith fod y gwaith wedi dechrau ar ystyried amrywiaeth ehangach o ddangosyddion yn seiliedig ar wybodaeth yng nghyfrifiad 2021, ond gan y bydd angen gwneud gwaith i'w tynnu ynghyd, disgwylir iddo ddylanwadu ar setliad 2025-26. Fe gadarnhaodd hefyd fod y gwaith o edrych ar effeithiau dangosyddion teneurwydd sydd wedi eu diweddaru wedi dechrau, er y bydd yn annhebygol o gael ei gwblhau cyn 2025-26, gyda gweithdy'n cael ei gynnal yn yr hydref.

33. Adleisiodd Jon Rae bwynt Judith fod gwaith sylweddol i'w wneud wrth ddiweddaru'r data o fewn y setliad. Nododd risgiau posibl o ran amseriad ac ansefydlogrwydd, gan ddweud y gallai fod angen ystyried dull gweithredu fesul cam er mwyn lleihau effeithiau'r ansefydlogrwydd.

34. Ychwanegodd y Gweinidog fod y pwynt ynghylch amseriad ac ansefydlogrwydd yn berthnasol iawn o ystyried effeithiau posibl diwygio treth gyngor ar y cyfrifiadau.

35. Diolchodd y Cyng. Mark Pritchard i Judith a'i thîm am y gwaith a gwblhawyd yn y maes hwn, gan ofyn a oedd yn hyderus y byddai'r data poblogaeth yn gywir erbyn yr hydref. Atebodd Judith drwy gadarnhau ei bod yn hyderus y byddai'r data ar gael gan yr ONS, a byddai proses drylwyr yn cael ei gweithredu i ddadansoddi effeithiau'r data a dod â hynny yn ôl i gyfarfod yr Is-grŵp Cyllid yn yr hydref.

36. Nododd y Cyng. Llinos Medi bryderon ynghylch effeithiau'r cynnydd mawr mewn poblogaeth yn ystod cyfnodau'r gwyliau mewn rhai awdurdodau. Cadarnhaodd Judith fod rhai agweddau ar y fformiwla yn ystyried niferoedd poblogaeth mwy cyfredol.

37. Gofynnodd y Cyng. Paul Griffiths am sicrhau bod y model yn adlewyrchu'r data diweddaraf sydd ar gael, a bod adolygiadau yn cael eu cwblhau mor gyflym â phosibl. Gofynnodd y Cyng. Ian Roberts am gynnal adolygiad penodol o'r elfen gwasanaethau cymdeithasol yn y fformiwla, er mwyn adlewyrchu poblogaeth sy'n heneiddio.

38. Cadarnhaodd Judith fod rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu yn egluro'r broses adolygu sydd wedi ei chynllunio.

**Eitem 7: Diweddariad gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu**

39. Gofynnodd y Gweinidog i Peter Curran fynd drwy'r diweddariad diweddaraf gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

40. Tynnodd Peter sylw at y ffaith bod pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr wedi cyflwyno arolwg cyllidebol i'r Swyddfa Gartref er mwyn

llywio ei adolygiad o wariant nesaf. Cadarnhaodd fod y sefyllfa bresennol yn llwm, ac oherwydd nad oes cyllid ar gyfer cyfalaf na chwyddiant, bu'n rhaid tynnu ar gronfeydd wrth gefn. Cadarnhaodd y bydd problemau difrifol yn wynebu plismona yng Nghymru os na fydd y fethodoleg gyllido yn cael ei diwygio. O ran yr adolygiad o fformiwla cyllido'r heddlu, cadarnhaodd nad yw wedi cael dyddiad ymgynghori eto, ac felly roedd yn pryderu ei bod yn bosibl na fyddai fformiwla newydd ar waith o fewn tymor presennol Llywodraeth y DU.

41. Ar nodyn cadarnhaol, dywedodd Peter fod y Swyddfa Gartref wedi cytuno bod heddluoedd Cymru wedi cael eu tangyllido mewn perthynas â'r ardoll brentisiaethau, a disgwylir addasiad yn y flwyddyn ariannol nesaf. Hefyd, cafodd data cynhwysfawr eu hanfon i'r Swyddfa Gartref i adlewyrchu'r achos dros gynyddu'r cyllid ar gyfer y brifddinas.

42. Tynnodd Peter sylw at bryderon ynghylch y gallu i uwchraddio fflyd o geir (er mwyn bodloni'r agenda ddatgarboneiddio) heb fod unrhyw gyllid cyfalaf.

43. Diolchodd y Gweinidog i Peter am ei ddiweddariad a'r gwaith y mae wedi ei gyflawni ar gyfer y grŵp, gan ddymuno ymddeoliad hapus iddo.

**Eitem 8: Unrhyw fater arall**

44. Cadarnhaodd y Cyng. Llinos Medi nad oedd wedi cael y llythyr ynghylch ymweliad gan y Gweinidog, ond bydd swyddogion yn cysylltu i wneud trefniadau.